# GREEN GEN TYWI TEIFI

## YMGYNGHORIAD CAM UN Y GWANWYN 2024

## CRYNODEB O'R ADBORTH



GREEN
GEN
CYMRU

# CYNIGION GREEN GEN CYMRU:

## Mae Green GEN Cymru yn gweithio i gysylltu'r ynni adnewyddadwy a gynhyrchir gan barciau ynni Bute Energy â'r grid cenedlaethol.

Rydyn ni'n gweithredu nawr i adeiladu a gweithredu rhwydwaith ynni gwyrdd, a fydd yn sicrhau bod 100% o ynni adnewyddadwy yn gallu cyrraedd ein cymunedau yng Nghymru.

Rydyn ni'n cynnig llinell uwchben 132kV newydd i gysylltu Parc Ynni Lan Fawr yng ngorllewin Cymru ag is-orsaf newydd y National Grid yng Nghaerfyrddin. Bydd cysylltiad Tywi Teifi oddeutu 52km o hyd a bydd yn defnyddio peilonau ar uchder safonol o 27 metr.

Bydd y cysylltiad newydd hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd sy'n effeithio ar ein tirweddau, bywoliaeth pobl a'n bywyd gwyllt drwy ddarparu'r seilwaith angenrheidiol i gysylltu ynni gwyrdd â'r grid, yn barod i gyflenwi cartrefi a busnesau.


Roeddem yn falch o allu rhannu ein cynigion â rhanddeiliaid a chymunedau yn ein hymgynghoriad cyntaf yn fuan yn 2024. Hoffem ddiolch i bawb a ddaeth i'r digwyddiadau, rhoi adborth, a chymryd rhan yn yr ymgynghoriad.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid a chymunedau drwy gydol y broses ymgynghori.

Mae eich safbwyntiau a'ch pryderon yn ein helpu i ddeall effeithiau posibl y cynigion ar y gymuned leol, yr amgylchedd a'r economi.

Rydyn ni'n cydnabod bod pryderon ynghylch effeithiau posibl ein cynigion. Mae'n amlwg eich bod am i ni ystyried yn ofalus effeithiau gweledol llinell uwchben, gan gynnwys ar dirwedd, cymunedau, busnesau lleol a thirfeddianwyr.

Mae'r crynodeb o'r adborth hwn yn rhoi trosolwg o'r cwestiynau a'r themâu allweddol a godwyd gennych yn ystod ein hymgynghoriad cam un, ac mae'n amlinellu ein dull o fynd i'r afael â'ch adborth wrth i ni symud ymlaen gyda'r prosiect.






# PAM FOD ARNOM ANGEN CYSYLLTIAD NEWYDD

## Mae newid yn yr hinsawdd yn bygwth bywoliaeth pobl, ein tirweddau a'n bywyd gwyllt.

Mae heriau newid yn yr hinsawdd yn cael eu cydnabod yn helaeth gan Lywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion. Mae'r ddau gyngor wedi datgan argyfyngau hinsawdd a bod effeithiau newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael eu gweld yn y siroedd. Rydyn ni'n gwybod bod gan bobl safbwyntiau gwahanol ar seilwaith newydd, ac rydyn ni'n cydnabod bod gan bobl bryderon am beilonau yn y dirwedd. Mae darparu'r seilwaith sydd arnom ei angen i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn galw am gydbwysedd gofalus. Rydyn ni'n canolbwyntio ar darfu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd a'r bobl sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau gweithgareddau hamdden yn agos i'n cynigion.

Nod Llywodraeth Cymru yw cyflymu'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy fel rhan o'r cynlluniau i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd. Wrth i ni symud oddi wrth danwydd ffosil, bydd cynhyrchu ynni newydd yn cael ei leoli lle gall ddal ffynonellau cynaliadwy fel gwynt, ynni llanw a solar.

Bydd mynd i'r afael â'r heriau hyn, a chyflawni'r cyfleoedd hyn yn arwain at newid sylweddol yn y ffordd mae ynni'n cael ei gynhyrchu a'i gysylltu yng Nghymru

**Ynni Adnewyddadwy yng Nghymru, Llywodraeth Cymru.**

**"Rhaid sylweddoli'n llawn: heb fuddsoddiad angenrheidiol mewn seilwaith grid newydd, na chynlluniau i uwchraddio'r seilwaith presennol yng Nghymru yn y tymor byr, ni fydd y datblygiad mewn ynni adnewyddadwy i gyrraedd targedau 2030 a 2050 yn cael ei gyflawni, heb sôn am darged 2035 newydd."**







hyd at **264MW o drydan**

**y potensial i ddisodli 258-373 miliwn tunnell o $CO_2$**
dros oes weithredol y prosiect




*Defnydd cyfartalog cartrefi yn y DU gan RenewableUK
**www.renewableuk.com/page/UKWEDExplained/Statistics-Explained.htm**

# SUT RYDYN N I'N MYND I AFAEL Â'R HERIAU HYN

Mae cynhyrchu mwy o ynni o ffynonellau adnewyddadwy a defnyddio llai o danwydd ffosil yn nod allweddol wrth fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae ynni adnewyddadwy yn cael ei ddatblygu mewn ardaloedd newydd a bydd angen i'r grid trydan newid er mwyn ei gysylltu â chartrefi a busnesau.

Un o'r datblygiadau newydd hyn yw Parc Ynni Lan Fawr Bute Energy, sydd â'r potensial i gynhyrchu dros 260MW o ynni glân a gwyrdd, sy'n ddigon i bweru'r hyn sy'n cyfateb i rhwng 174,000 a 250,000 o gartrefi.*


Bydd prosiect Tywi Teifi Green GEN Cymru yn cysylltu Parc Ynni Lan Fawr ag is-orsaf arfaethedig y National Grid yng Nghaerfyrddin. Wrth i'r galw am ynni carbon isel barhau i dyfu dros y blynyddoedd nesaf, gellid defnyddio cysylltiad Tywi Teifi i gysylltu prosiectau ynni adnewyddadwy lleol eraill â'r grid yn y dyfodol.

Bydd prosiect Tywi Teifi yn helpu i ddiwallu ein blaenoriaethau – cysylltu ynni glân yn gyflym ac yn effeithlon i gartrefi a busnesau er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

Mae'r seilwaith sydd ei angen arnom i bontio i economi carbon isel hefyd yn gallu dod â llawer o fanteision. Mae ganddo'r potensial i greu sgiliau a swyddi newydd, yn genedlaethol ac yn lleol. Bydd yn cefnogi'r defnydd o dechnolegau carbon isel yn ein cartrefi a'n busnesau.



**Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, defnyddio llai o danwyddau ffosil**



**Seilwaith grid newydd i gysylltu ynni adnewyddadwy â chartrefi a busnesau**



**Gweithredu'n gyflym a chyflawni prosiectau'n effeithlon**

*Defnydd cyfartalog cartrefi yn y DU gan RenewableUK
**www.renewableuk.com/page/UKWEDExplained/Statistics-Explained.htm**



# EIN HYMGYNGHORIAD

Cynhaliwyd ein hymgynghoriad cam un rhwng 24 Ionawr a 6 Mawrth 2024. Fe wnaethon ni barhau i dderbyn adborth hyd at 13 Mawrth 2024.

**Gofynnodd yr ymgynghoriad am eich adborth ar:**

- Unrhyw ffactorau roeddech chi'n teimlo nad oeddet wedi cael eu hystyried yn ein gwaith hyd yma, gan gynnwys y llwybr a ffefrir.
- Unrhyw ffactorau yr oeddech am i ni eu hystyried wrth ddatblygu ein cynigion ar gyfer y llwybr a ffefrir.

Fe wnaethom gynnal sesiynau briffio i randdeiliaid a digwyddiadau cyhoeddus ym mhob un o'r pum adran ar hyd y llwybr arfaethedig i siarad â'r cymunedau agosaf at y prosiect.

Roedd yn gyfle da i ymgysylltu â nifer o aelodau o'r gymuned, gan roi cyfle gwerthfawr i ni wrando ar eich safbwyntiau ar ein cynigion.

Yn ystod yr ymgynghoriad, fe wnaethom gasglu adborth a fydd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o lunio'r prosiect wrth iddo ddatblygu.

Mae gwybodaeth leol yn amhrisiadwy o ran ein helpu i ddeall a lliniaru unrhyw effeithiau posibl y prosiect.



**Nifer a ddaeth i'r digwyddiad**

1206



**Cyflwyniadau adborth**

995

I gael gwybod mwy, ewch i'n gwefan: **www.greengentowyteifi.com**

# EICH ADBORTH

Hoffem ddiolch i bawb a gyflwynodd adborth i'n hymgynghoriad cam un. Mae eich mewnbwn yn ein helpu i nodi ffactorau pwysig i'w hystyried ac yn dylanwadu ar ddatblygiad graddol y prosiect.

- Cawsom adborth ar amrywiaeth o faterion allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, effeithiau gweledol posibl llinell uwchben, Green GEN Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o opsiynau gosod llinellau o dan y ddaear ac effeithiau posibl ar dwristiaeth a'r economi leol.
- Er mwyn rhoi trosolwg o'r adborth a gyflwynwyd, rydyn ni wedi darparu cyfres o gwestiynau ac atebion, ynghyd â themâu allweddol sy'n cael eu hystyried ar hyn o bryd.
- Byddwn yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori cynhwysfawr yn manylu ar yr holl adborth a gafwyd, gan amlinellu sut mae tîm ein prosiect wedi ystyried pob sylw. Bydd yr adroddiad hwn ar gael yn ein hymgynghoriad nesaf yn 2025.

**C Pam rydych chi'n dewis defnyddio peilonau a llinell uwchben ac nid ceblau o dan y ddaear?**

A Rydyn ni'n deall bod nifer o safbwyntiau gwahanol ar beilonau. Mae ardaloedd ledled Cymru lle mae'r dirwedd, amaethyddiaeth a thwristiaeth yn cydfodoli â pheilonau i greu economi leol ffyniannus.

Codwyd pryderon ynghylch effeithiau ehangach cael cysylltiad uwchben. Mae ein hymchwiliadau'n dangos bod angen mwy o dir ar geblau o dan y ddaear, a gallant amharu ar y tir yn ystod y cyfnod adeiladu. Gallai hyn hefyd arwain at effeithiau amgylcheddol ac ecolegol tymor hir. Bydd defnyddio peilonau yn ein galluogi i ddarparu cysylltiad newydd yn gyflym, gan amharu cyn lleied â phosibl ar y tir. Bydd hyn ein galluogi i frwydro yn ôl yn erbyn newid yn yr hinsawdd cyn gynted ag y gallwn.

Rydyn ni'n deall bod gan bobl safbwyntiau gwahanol ar unrhyw brosiectau seilwaith newydd. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynigion yn ofalus, gan geisio lleihau'r effeithiau gweledol lle bo hynny'n bosibl.

**C Pam nad ydych yn bwriadu cyflawni'r prosiect hwn o dan y ddaear gan ddefnyddio aradr wadd?**

A Rydyn ni'n cydnabod y diddordeb presennol mewn defnyddio aradr wadd i blannu ceblau ac yn parhau i ymchwilio i'w ddichonoldeb a'i gost.

Rydyn ni'n gweithio gydag arbenigwyr yn y diwydiant i bennu dadansoddiad cost cywir ar gyfer defnyddio aradr wadd. Hyd yma, mae hyn wedi dangos bod cost cwblhau'r gwaith gan ddefnyddio aradr wadd yn uwch na defnyddio llinell uwchben, yn bennaf oherwydd cymhlethdod a gofynion adeiladu ychwanegol ceblau o dan y ddaear.

Er bod defnyddio aradr wadd dal yn opsiwn, credwn mai llinell uwchben sy'n cynnig yr opsiwn mwyaf hyfyw a chost-effeithiol ar hyn o bryd ar gyfer darparu cysylltiad yn gyflym. Mae darparu'r cysylltiad newydd yn gyflym yn allweddol os ydym am ddod ag ynni carbon isel i gartrefi a busnesau cyn gynted â phosibl.

**C Sut yr ydych yn ystyried yr effeithiau cymdeithasol ac economaidd, yn enwedig o ran twristiaeth a hamdden, sy'n gysylltiedig â'r cynnig ar gyfer y llinell uwchben?**

A Rydyn ni'n cydnabod y rôl bwysig y mae twristiaeth a hamdden yn ei chwarae yn Nyffryn Teifi ac rydyn ni dal wedi ymrwymo'n llwyr i gyflwyno cynnig sy'n lleihau'r effeithiau posibl ar y rheini sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau'r ardal leol.

Mae'r adborth a gasglwyd yn ystod ein hymgynghoriad cam un yn siapio'r prosiect drwy gryfhau ein dealltwriaeth o'r ardal leol, gan dynnu sylw at unrhyw effeithiau posibl ar fusnesau a chymunedau lleol.

I gefnogi ein cais am ganiatâd cynllunio, byddwn yn asesu effeithiau cymdeithasol ac economaidd y prosiect, gan nodi'n glir ein cynlluniau ar gyfer lleihau unrhyw effeithiau posibl.

**C Pa fesurau sydd ar waith i fynd i'r afael â phryderon am effaith y prosiect ar eiddo a chymunedau unigol?**

A Rydyn ni wedi adolygu'n drylwyr yr holl adborth a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyntaf. Byddwn yn defnyddio hyn i gryfhau ein dealltwriaeth o'r ardal leol ac yn ceisio lleihau unrhyw effeithiau posibl ar eiddo neu gymunedau unigol.

Yn dilyn dadansoddiad trylwyr o'r adborth, byddwn yn cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori ar gyfer Prosiect Tywi Teifi. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi manylion yr adborth a gafwyd yn ystod rownd gyntaf yr ymgynghoriad, gan ddangos sut rydyn ni wedi ystyried y materion a godwyd. Bwriedir cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori ar gyfer Tywi Teifi yn 2025.

Yn 2025, bydd rhanddeiliaid a chymunedau yn cael cyfle arall i roi adborth ar ein cynigion diweddaraf yn ein hail ymgynghoriad anstatudol.

**C Ym mha ffordd y cafodd effeithiau gweledol a chymunedol eu hystyried wrth benderfynu ar y llwybr a ffefrir ar gyfer y cysylltiad newydd ym mhrosiect Tywi Teifi?**

A Gyda phenseiri tirwedd cymwys, fe wnaethom asesu'n ofalus yr opsiynau ar gyfer y cysylltiad newydd. Gwnaethom ymweld â safleoedd yn yr ardal leol i benderfynu ar lwybr a ffefrir a oedd yn cyfyngu ar effeithiau gweledol a chymunedol cymaint â phosibl.

Mae ein hasesiadau dewis llwybr yn dilyn Rheolau Holford, yr egwyddorion sefydledig a ddefnyddir ar gyfer llwybro llinellau uwchben. Mae hyn wedi ein helpu i ddewis llwybr sy'n defnyddio cefndiroedd naturiol yn hytrach na chefndiroedd awyr a chymoedd agored gydag ardaloedd coediog yn hytrach nag ardaloedd o dir uwch.

Yn unol â'r egwyddorion hyn a chydbwyso'r ffactorau eraill fel treftadaeth ddiwylliannol, ecoleg a chost, teimlwn mai'r opsiwn gorau yw cysylltu â phwynt ger Caerfyrddin, gyda llwybr drwy Ddyffryn Teifi, gan arwain at gyfanswm hyd llwybr o tua 52km.

Drwy gydol y broses dewis llwybr a ffefrir, rydyn ni wedi rhoi cryn bwyslais ar bwysigrwydd lleihau effeithiau gweledol ar gymunedau lleol yn Nyffryn Teifi a thu hwnt. Mae hyn yn parhau i fod yn ffocws allweddol wrth ddadansoddi adborth.

**C Pwy yw Green Generation Energy Networks Cymru?**

A Mae Green Generation Energy Networks Cymru (Green GEN Cymru) yn fusnes ynni adnewyddadwy, sy'n ceisio hyrwyddo, caniatáu a datblygu seilwaith grid newydd i ddosbarthu ynni gwyrdd. Rydyn ni'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddarparu rhwydwaith dosbarthu dibynadwy a chadarn a fydd yn mynd i'r afael â'r argyfwng ynni a'r argyfwng hinsawdd, yn ogystal â'r argyfwng costau byw. Rydyn ni wedi ymrwymo i rymuso cymunedau gwledig drwy fuddsoddi a darparu swyddi a sgiliau, gan alluogi cymunedau i fyw bywydau trydan modern.

**C Sut bydd y prosiect yn cael ei ariannu?**

A Ni fydd arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio. Bydd prosiect Tywi Teifi yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan Green GEN Cymru a'i fuddsoddwyr.

Rydyn ni wedi ffurfio partneriaeth â Copenhagen Infastrucure Partners (CIP). Bydd eu buddsoddiad tymor hir yn ein galluogi i gyflymu'r gwaith o ddatblygu ein portffolio a dod â manteision sylweddol i Gymru o ran y gadwyn gyflenwi, sicrwydd a'r economi. Mae CIP yn rheoli dros £116bn o gronfeydd seilwaith ynni yn fyd-eang, gan ganolbwyntio ar y sector ynni adnewyddadwy.

# PRIF THEMAU

| Adran 1 | Adran 2 | Adran 3 | Adran 4 | Adran 5 |
|---|---|---|---|---|
| Lan Fawr i Lambed | Llambed i Lanllwni | Llanllwni i Alltwalis | Alltwalis i Rhydargaeau | Rhydargaeau i Landyfaelog |

| Pwnc | Eich sylwadau | Beth rydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| **Adran 1** | ***Fe wnaethoch chi fynegi pryder am yr effaith weledol y byddai llinell uwchben yn ei chael ar y rhan hon o'r llwybr a'r effeithiau posibl ar anheddau unigol.*** | Rydyn ni'n deall bod gan bobl bryderon am effeithiau gweledol posibl llinell uwchben ar y rhan hon o'r llwybr. Rydyn ni wedi ymrwymo i gyflwyno cynnig sy'n lleihau'r effeithiau ar bawb sy'n byw, yn gweithio ac yn mwynhau'r ardal leol.<br>Wrth ddatblygu ein cynigion cychwynnol, roeddem wedi ceisio cadw'r effeithiau gweledol mor isel â phosibl. Gwnaed hyn drwy ddewis cefndiroedd naturiol yn hytrach na chefndiroedd awyr a chymoedd agored gydag ardaloedd coediog yn hytrach nag ardaloedd o dir uwch. Lle bo'n bosibl, byddwn yn sgrinio o'r dyffryn a'r coetir presennol i leihau'r effeithiau gweledol ymhellach.<br>Nid oes unrhyw benderfyniadau terfynol wedi cael eu gwneud ynghylch y llwybr a ffefrir na lleoliad peilonau. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynlluniau gan ddefnyddio adborth lleol a thrafodaethau pellach gydag arbenigwyr cynllunio llwybrau i sicrhau bod yr effeithiau gweledol cyn lleied â phosibl. |
| **Adran 2** | ***Roeddech chi eisiau gwybod sut bydd y llinell uwchben yn effeithio ar ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol yn yr ardal, yn enwedig Eglwys yr Holl Saint yng Nghellan a safle claddu o'r Oes Efydd sydd gerllaw.*** | Wrth ddatblygu ein cynigion, rydyn ni'n mynd ati i osgoi ardaloedd o bwysigrwydd hanesyddol lle bo hynny'n bosibl.<br>Rydyn ni wedi nodi bod Eglwys yr Holl Saint a safle claddu o'r Oes Efydd yng nghoridor ein llwybr presennol wrth iddo basio drwy Gellan a Phentrefelin sydd gerllaw.<br>Rydyn ni'n deall pwysigrwydd hanesyddol y safleoedd hyn a'u harwyddocâd i lawer yn y gymuned leol. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein cynigion mewn modd sensitif, gan geisio creu llwybrau sy'n osgoi ardaloedd hyn lle bo hynny'n bosibl. |
| **Adran 2** | ***Roedd yr adborth yn nodi'n glir bod pobl yr ardal yn poeni am sut gallai llinell uwchben effeithio ar dwristiaeth a'r economi leol yn y rhan hon o'r llwybr.*** | Rydyn ni'n deall bod twristiaeth yn chwarae rhan enfawr yn economi leol Dyffryn Teifi ac rydyn ni'n deall pryderon pobl ynghylch ein cynigion. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu cysylltiad sy'n gallu cydfodoli ochr yn ochr â diwydiant twristiaeth ffyniannus Dyffryn Teifi.<br>Yn ystod ein rownd gyntaf o ymgynghori, cawsom adborth gan fusnesau lleol, gan gynnwys llawer yn y diwydiant twristiaeth. Mae'r adborth hwn yn helpu i gryfhau ein dealltwriaeth o'r ardal leol wrth i ni barhau i ddatblygu ein cynigion.<br>Wrth ddatblygu ein cynigion, rydyn ni'n mynd ati i osgoi lleoliadau sy'n boblogaidd ymysg twristiaid. Wrth i ni ddatblygu ein cynigion, byddwn yn ystyried yn ofalus ble mae'r peilonau wedi'u lleoli er mwyn ceisio lleihau'r effeithiau gweledol cymaint â phosibl. |



| Pwnc | Eich sylwadau | Beth rydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| **Adran 3** | ***Mae rhai wedi awgrymu ailgyfeirio'r adran hon i'r gorllewin o'r A455 a phentref Alltwallis, er mwyn lleihau'r effeithiau gweledol posibl.*** | Hoffem ddiolch i'r rheini a gyflwynodd adborth ar gyfer Adran 3 ein llwybr arfaethedig, gan gynnwys y rheini a gynigiodd awgrymiadau ar gyfer ailgyfeirio posibl ger Alltwallis.<br>Rydyn ni'n adolygu'n ofalus sut mae Adran 3 yn cymharu â llwybrau amgen posibl gyda'n timau Amgylcheddol a Thechnegol, ac rydyn ni'n gweithio i ddarparu opsiwn sy'n lleihau effeithiau gweledol ein cynnig ar gymunedau lleol.<br>Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bobl am ddatblygiadau'r prosiect a byddwn yn rhoi rhagor o fanylion am y llwybr a ffefrir yn ein hymgynghoriad nesaf yn 2025. |
| **Adran 4** | ***Mae pobl yn poeni am yr effaith bosibl y gallai'r rhan hon o'r llwybr ei chael ar ardal cynefin â blaenoriaeth ar gyfer Britheg y Gors.*** | Rydyn ni'n ymwybodol o bresenoldeb cynefinoedd brithegion y gors yn y rhan hon o'r llwybr ac rydyn ni'n ceisio lleihau effeithiau amgylcheddol lle bo hynny'n bosibl, gan geisio cefnogi bioamrywiaeth drwy gydol oes y prosiect.<br>Bydd effaith amgylcheddol y prosiect yn cael ei hasesu fel rhan o'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol. Bydd hyn yn ymchwilio i effeithiau amgylcheddol posibl ein cynigion, ynghyd â sut rydyn ni'n bwriadu lleihau neu gyfyngu ar yr effeithiau hyn. Bydd hyn yn cael ei adrodd yn y Datganiad Amgylcheddol sy'n cael ei gyflwyno fel rhan o'n cais am ganiatâd cynllunio.<br>Byddwn yn gweithio'n agos gyda chyrff arbenigol, grwpiau amgylchedd lleol, tirfeddianwyr a chymunedau lleol i drafod ein canfyddiadau ac i ymgynghori ynglŷn â'r ffordd orau o reoli unrhyw effeithiau posibl. |
| **Adran 5** | ***Mae pryderon ynghylch effeithiau gweledol posibl peilonau ar yr ardal hon o'r llwybr, yn enwedig rhwng Rhydargaeau a Felin-wen.*** | Rydyn ni'n deall bod gan rai pryderon am effeithiau gweledol posibl ein cynigion yn Adran 5 o'r llwybr. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu llwybr a ffefrir sy'n gweithio i bawb, a lle bo'n bosibl, byddwn yn ceisio cydbwyso'r effeithiau ar eiddo unigol, gan ddefnyddio'r dyffryn a'r coetir presennol fel cyfle i sgrinio.<br>Rydyn ni'n siarad ag arbenigwyr yn y diwydiant a chymunedau lleol a byddwn yn defnyddio adborth i helpu i nodi opsiwn yn Adran 5 sy'n lleihau effeithiau gweledol ar eiddo unigol lle bo hynny'n bosibl. |
| **Meysydd Electromagnetig (EMFs)** | ***Mae gennych bryderon am Feysydd Electromagnetig (EMFs) sy'n gysylltiedig â bod wrth ymyl llinell uwchben sy'n 132kV.*** | Mae terfynau caeth ar waith i'n diogelu ni i gyd rhag dod i gysylltiad â Meysydd Electromagnetig. Mae'r terfynau hyn wedi'u seilio ar adolygiadau gofalus o'r wyddoniaeth gan arbenigwyr annibynnol, sy'n argymell lefelau diogel o gysylltiad i'r cyhoedd a gweithwyr.<br>Terfyn y cysylltiad ar gyfer aelodau'r cyhoedd yw 360 microtesla, felly hyd yn oed os ydych chi'n sefyll yn uniongyrchol o dan y llinell uwchben, dim ond ffracsiwn bach o'r terfyn yw'r lefelau.<br>Ar ôl degawdau lawer o ymchwil, a gwario cannoedd o filiynau o bunnoedd yn ymchwilio i'r mater, nid oes unrhyw effeithiau iechyd wedi'u sefydlu o dan y terfynau cysylltiad.<br>I gael rhagor o wybodaeth am Feysydd Electromagnetig ewch i www.emfs.info |
| **Ceisiadau llwybro** | ***Awgrymodd llawer ohonoch ddewisiadau amgen i'r llwybr mewn gwahanol fannau.*** | Diolch i'r rheini a wnaeth awgrymiadau amgen ar gyfer rhannau o'r llwybr. Bydd pob awgrym llwybr amgen yn cael ei ystyried gan ein tîm llwybro yn erbyn rheolau Holford, effeithiau gweledol, nodweddion amgylcheddol, dichonoldeb technegol, a chost. Bydd adborth a dderbynnir hefyd yn cael ei ystyried fel sail i aliniad ar gyfer y peilonau |
| **Gosod o dan y ddaear** | ***Dywedodd llawer eu bod yn ffafrio gosod rhan o'r llwybr arfaethedig neu'r llwybr cyfan o dan y ddaear.*** | Ar hyn o bryd rydyn ni'n cynnig llinell uwchben ar gyfer prosiect Tywi Teifi.<br>Mae llinellau uwchben yn ddull effeithiol, dibynadwy ar gyfer datblygu prosiectau cysylltiad yn gyflym – mae hyn yn allweddol os ydym am ddod ag ynni carbon isel i gartrefi a busnesau cyn gynted â phosibl.<br>Wrth i ni barhau i adolygu adborth prosiectau, byddwn yn asesu a oes angen gosod unrhyw ran o'r cysylltiad o dan y ddaear, er enghraifft mewn ardaloedd cyfyngedig iawn neu ardaloedd arbennig o sensitif. |

| Pwnc | Eich sylwadau | Beth rydym yn ei wneud |
|---|---|---|
| **Ynni carbon isel** | ***Yn eich adborth, fe wnaethoch fynegi pryderon am yr angen am dechnoleg carbon isel.*** | Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn cael ei deimlo yng Nghymru ac rydyn ni wedi ymrwymo'n llwyr i weithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflymu'r gwaith o ddatblygu ynni adnewyddadwy a'i seilwaith cysylltiedig.<br>Wrth i ni symud oddi wrth danwydd ffosil, bydd cynhyrchu ynni newydd yn cael ei leoli lle gall ddal ffynonellau cynaliadwy fel gwynt, ynni llanw a solar. Os rhoddir caniatâd, bydd ein cynigion yn helpu Parc Ynni Lan Fawr i ddarparu 264MW o drydan i'r grid ynni lleol, sy'n ddigon i bweru'r hyn sy'n cyfateb i 174,000 – 251,000* o gartrefi bob blwyddyn.<br>Rydyn ni'n teimlo bod buddsoddi mewn seilwaith carbon isel yn hanfodol i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, gan foderneiddio'r grid trydan a gwneud cyfraniad sylweddol at ddyheadau Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar gyfer Sero Net erbyn 2050. |
| **Adeiladu** | ***Fe wnaethoch chi ofyn i ni a allem ddarparu rhagor o fanylion am ein cynigion yn ystod yr ymgynghoriad, gan gynnwys delweddau o sut gallai'r peilonau edrych yn y dirwedd.*** | Rydyn ni ar gam cynnar iawn yn ein cynigion ar gyfer cysylltiad Tywi Teifi. Roedd ein hymgynghoriad cychwynnol wedi helpu i gasglu adborth i lywio'r prosiect. Byddwn yn cael rhagor o fanylion am y llwybr, ochr yn ochr â lleoliadau arfaethedig ar gyfer peilonau, yng ngham nesaf yr ymgynghoriad.<br>Diolch i'r rheini a roddodd adborth ar yr hyn yr hoffent ei weld yn yr ymgynghoriad. Byddwn yn ystyried yr awgrymiadau hyn ac yn gweld a oes modd eu cynnwys yn ein hymgynghoriad nesaf yn 2025. |

**Amserlen y prosiect**

Ionawr – Ymgynghoriad cyhoeddus cyntaf
**2024**

**2025**
Ail ymgynghoriad cyhoeddus

Trydydd ymgynghoriad cyhoeddus (statudol)
**2025**

**2026**
Gaeaf – y cynharaf y byddai'r cais yn cael ei benderfynu

Gwaith adeiladu'n dechrau os yw'r prosiect yn cael cydsyniad
**2027**

**2027**
Prosiect Tywi Teifi yn weithredol

*Defnydd cyfartalog cartrefi yn y DU gan RenewableUK
**www.renewableuk.com/page/UKWEDExplained/Statistics-Explained.htm**



# Y CAMAU NESAF

Mae eich adborth ar yr ymgynghoriad wedi rhoi llawer o wybodaeth werthfawr i ni a fydd yn cael ei hystyried wrth i ni ddatblygu'r prosiect.

## Gweithio gyda thirfeddianwyr

**Mae ein tîm tiroedd ymroddedig ar hyn o bryd yn gweithio gyda thirfeddianwyr y mae'r cynigion yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â thirfeddianwyr cyn yr ymgynghoriad nesaf yn 2025.**

**Os ydych chi'n dirfeddiannwr nad yw ein tîm tiroedd wedi cysylltu â chi, cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion cyswllt sydd ar gael ar y dudalen gefn.**

## Adroddiad yr Ymgynghoriad

**Byddwn yn llunio adroddiad ymgynghori cynhwysfawr yn manylu ar yr holl adborth a gawsom a sut mae pob sylw'n cael ei ystyried.**

**Bydd yr adroddiad hwn ar gael yn ystod ein hymgynghoriad nesaf.**

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

**Byddwn yn cydweithio'n agos â'n rhanddeiliaid drwy gydol y prosiect, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am ei gynnydd.**

## Llwybro a gosod peilonau

**Byddwn yn bwrw ymlaen i fireinio'r llwybr, gan ystyried yr holl adborth rydyn wedi'i gael. Ar ben hynny, rydyn ni wedi dechrau'r broses o bennu lleoliadau addas ar gyfer y peilonau. Bydd rhagor o fanylion am y ddwy agwedd yn cael eu darparu yn ystod yr ymgynghoriad nesaf.**



GREEN
GEN
CYMRU


www.greengentowyteifi.com

info@greengentowyteifi.com

0800 915 2496

FREEPOST
Green GEN
Cymru TT